Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

## Canolfan Geni Tirion, Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 19 ac 20 Hydref 2023

Dyddiad cyhoeddi: 20 Ionawr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-83577-460-1

© Hawlfraint y Goron 2024

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5
2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6
3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8
    - Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
    - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 12
    - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 17
4. Y camau nesaf ........ 21

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 22

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 24

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 25

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yng Nghanolfan Geni Tirion, Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 19 ac 20 Hydref 2023.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd menywod a'u teuluoedd i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o dri holiadur gan fenywod a thri gan aelodau o'r staff. Er bod yr adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom i'w gweld ym mhob rhan o'r adroddiad, dylai'r bwrdd iechyd nodi gan mai dim ond nifer bach o ymatebion a gafwyd, nad yw'r adborth a gafwyd o reidrwydd yn gynrychioliadol.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.
Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol (bydwragedd) ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelwyd y staff yn darparu gofal parchus a charedig i'r menywod ac aelodau o'u teuluoedd a oedd yn ymweld â'r ganolfan geni neu'n ffonio'r ganolfan. Gwelsom fod y staff yn gweithio'n dda fel tîm i roi profiad cadarnhaol i fenywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth a oedd wedi'i deilwra at yr unigolyn ac a oedd yn canolbwyntio ar eu hanghenion. Roedd pob un o'r menywod a'r bobl sy'n rhoi genedigaeth yn cael eu gofal mewn amgylchedd croesawgar a chartrefol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:
- Gwella'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg i gleifion
- Ystyried sut y gellir denu menywod o gefndiroedd amrywiol i ddefnyddio'r ganolfan lle y bo'n glinigol briodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Cynnig cymorth bwydo ar y fron i fenywod, gan gynnwys menywod na wnaethant roi genedigaeth yng nghanolfan Tirion
- Amgylchedd geni cartrefol a chroesawgar â dodrefn o safon uchel
- Cyfleoedd i fenywod drafod yr opsiynau geni sydd ar gael iddynt, gan gynnwys trafodaeth am y risgiau sy'n gysylltiedig ag opsiynau nad ydynt o bosibl yn unol â'r canllawiau
- Roedd prosesau da ar waith i alluogi menywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth, gan gynnwys cyfleoedd i roi adborth ar eu gofal.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau cadarn ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i fenywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth. Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau a threfniadau iechyd a diogelwch. Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn drefnus ac yn dangos bod cleifion wedi cael eu hannog i wneud dewisiadau priodol. Gwelsom fod prosesau clir ar waith ar gyfer rheoli digwyddiadau clinigol, gan sicrhau bod gwybodaeth a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu ar draws y gwasanaeth.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith, a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad:

- Roedd angen rhai gwelliannau mewn perthynas â storio meddyginiaethau yn ddiogel
- Roedd angen symud darn o ddodrefn clinigol i ardal glinigol fwy priodol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:
- Sicrhau bod rhaglen dreigl o waith cynnal a chadw ar waith er mwyn gallu glanhau'n effeithiol
- Cynnal ymarfer i sicrhau bod y systemau sydd ar waith i ddiogelu babanod yn parhau'n effeithiol

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- System effeithiol i sicrhau bod trosglwyddiadau gofal o'r ganolfan geni i'r uned obstetreg yn cael eu cynnal mewn modd diogel ac amserol
- Mae prosesau uwchgyfeirio effeithiol ar waith i gadw menywod a babanod yn ddiogel
- Mae prosesau rheoli risg cynhwysfawr ar waith.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd ethos cadarnhaol yn amlwg ar y ward, ynghyd ag arweinyddiaeth gadarn. Roedd y staff yn frwdfrydig iawn, ac yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i fenywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth.  Roedd strwythur rheoli ar waith gyda llinellau adrodd clir. Roedd y rheolwyr bydwreigiaeth yn weladwy ac yn hygyrch i'r staff.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:
- Gwella ymwybyddiaeth o ganlyniadau a lefelau boddhad y ganolfan geni ymhlith cydweithwyr ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Lefelau cydymffurfiaeth uchel â hyfforddiant gorfodol ymhlith y staff
- Roedd system gadarn ar waith ar gyfer olrhain adborth gan gleifion, ac ar gyfer rhannu unrhyw welliannau ar draws wasanaethau mamolaeth ehangach y bwrdd iechyd
- Cynnig sesiwn dadfriffio i bob menyw ar ôl ei phrofiad geni, os bydd am gael sesiwn o'r fath.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a roddwyd ar waith ar unwaith yn ystod yr arolygiad wedi'u nodi yn Atodiad A.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron ar-lein i gasglu barn ac adborth gan fenywod a'u teuluoedd. Gan nad oedd unrhyw fenywod a oedd yn gleifion mewnol yn y Ganolfan Geni ar adeg ein harolygiad, rydym wedi edrych ar gyfanswm o dri holiadur a gwblhawyd. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Profiad ardderchog o'r dechrau i'r diwedd. Cymerwyd sylw o fanylion ychwanegol gan wneud y profiad cyfan yn llawer gwell ac yn fwy personol. Cefais fy nhrin fel ffrind gan y fydwraig a'r Cynorthwy-ydd Gofal Iechyd a aeth ymhell y tu hwnt i ddisgwyliadau'r swydd wrth ofalu amdanaf!"*

> *"Mae Tirion fel cyfleuster preifat. Roedd y gofal wedi'i bersonoli'n llwyr, ac yn cynnwys fy mhartner, gan barchu a gwerthfawrogi pob dewis a phenderfyniad a wnaed gennyf."*

### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

**Hybu iechyd**

Gwnaethom edrych ar y wybodaeth hybu iechyd a oedd wedi'i chynnwys yn y llyfryn wrth ochr y gwely ac a oedd wedi'i harddangos yn y ganolfan. Gwnaethom edrych hefyd ar wybodaeth hybu iechyd helaeth, a oedd yn ymwneud â beichiogrwydd a genedigaeth, ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am smygu, brechiadau, bwyta'n iach, bwydo ar y fron ac ymarfer corff. Roedd y wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Gwelsom fod llawer o fenywod yn cael cymorth bwydo ar y fro yn y ganolfan geni. Roedd y cymorth hwn ar gael i fenywod na wnaethant roi genedigaeth yng nghanolfan Tirion, yn ogystal â'r menywod a wnaeth hynny.

**Gofal urddasol a pharchus**

Roedd yr uned yn dawel yn ystod ein harolygiad ac ni chafodd y tîm arolygu gyfle i weld enghreifftiau o ofal wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn siarad â'r menywod a oedd yn ymweld â'r uned gan ddangos

gofal, caredigrwydd a pharch. Roedd yr un peth yn wir yn yr holl enghreifftiau o sgyrsiau ffôn a glywsom.

Yng Nghanolfan Geni Tirion, caiff menywod eu trin mewn ystafelloedd ochr cartrefol, modern a glân o safon uchel sy'n cynnwys cyfleusterau ar gyfer gwneud te a choffi, gwely dwbl ac ystafell ymolchi a rennir rhwng dwy ystafell. O ystyried mai Canolfan Geni yw hon a bod partneriaid yn aml yn aros, gwnaethom ofyn i'r staff ddisgrifio'r systemau sydd ar waith i sicrhau urddas y menywod pan fyddant yn defnyddio'r ystafell ymolchi. Esboniwyd y prosesau sydd ar waith a chawsom sicrwydd fod y prosesau hynny'n addas.

Nodwyd gennym fod dyfeisiau meddygol yn cael eu cuddio mewn droriau a'r tu ôl i'r bleinds er mwyn sicrhau bod yr ystafelloedd yn teimlo'n gartrefol.

Er bod yr ystafelloedd o safon uchel, nodwyd gennym fod angen rhywfaint o waith cynnal a chadw ar fleinds rhai o'r ffenestri lle roedd rhai o'r slatiau wedi torri / ar goll. Roedd ôl traul ar y paent hefyd ar yr unedau yn rhai o'r ystafelloedd, ac o ganlyniad roedd y pren oddi tano i'w weld. Gallai hyn ei gwneud hi'n anodd eu glanhau'n effeithiol.

**Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhaglen dreigl o waith cynnal a chadw ar waith er mwyn sicrhau bod y ganolfan yn addas at y diben ac y gellir ei glanhau'n effeithiol.**

Gwelsom dystiolaeth o adborth cadarnhaol gan fenywod a theuluoedd sydd wedi defnyddio Canolfan Geni Tirion, gyda sawl un yn canmol y staff am eu trin cystal.

Dywedodd pob un o'r menywod a atebodd yr holiadur eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.

**Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo dewisiadau cleifion. Gwelsom fod llyfrynnau gwybodaeth i gleifion ar gael wrth ochr y gwely ym mhob ystafell. Roeddent yn nodi'r opsiynau gofal yn glir ac yn annog menywod i roi gwybod os nad oedd eu gofal yn bodloni eu disgwyliadau.

Gwelsom dystiolaeth weithiau fod dewisiadau rhai cleifion yn cael eu galluogi nad oeddent yn unol â'r canllawiau a'r llwybrau cenedlaethol. Lle roedd menywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth wedi gofyn am y dewisiadau hyn, roedd asesiadau risg, cynlluniau a chytundebau ysgrifenedig priodol ar waith ar eu cyfer. **Roedd hyn yn arfer ganmoladwy yn ein barn ni.**

Gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff a chadarnhaodd pob un ohonynt fod adborth gan gleifion yn cael ei ystyried ar dri cham gwahanol yn ystod y beichiogrwydd a'r cyfnod gofal ôl-enedigol. Roedd yr adborth yn cael ei fonitro ac roedd unrhyw broblemau yn cael eu datrys mewn modd amserol. Gwelsom hefyd fod yr aelodau o staff a oedd yn gyfrifol am brofiad y claf yn monitro cyfryngau cymdeithasol y bwrdd iechyd yn rheolaidd er mwyn sicrhau os oedd menywod yn anfodlon ar eu gofal, fod cyfle iddynt gyfathrebu ag aelod o staff.

Roedd y pum set o gofnodion cleifion a welsom yn cyfeirio at gynlluniau a dewisiadau geni.

## Amserol

### Gofal amserol

Mae'r ganolfan ar agor ac mae staff ar gael 24 awr y dydd. Gall unrhyw fenyw sy'n bodloni meini prawf y bwrdd iechyd ar gyfer geni mewn canolfan geni ddefnyddio'r ganolfan.

Dywedwyd wrthym ei bod hi'n bosibl y byddai angen i fenywod yn y ganolfan geni a oedd yn gofyn am pethidine aros hyd nes y byddai'r ail fydwraig yn cyrraedd (os nad oedd ail fydwraig ar y safle), er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi a'r protocol rheoli meddyginiaethau. Roedd menywod yn cael gwybod ei bod hi'n bosibl y byddai oedi wrth gael gafael ar pethidine, pe byddent yn dewis geni yn y ganolfan, er bod nifer y menywod sy'n dewis pethidine fel meddyginiaeth lleddfu poen yn y lleoliad hwn yn isel.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu ymdopi â'r holl ofynion croes o ran eu hamser yn y gwaith.

Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion a gadarnhaodd fod anghenion personol y cleifion, a'u hanghenion o ran maeth a chysur, yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Gwnaethom edrych ar yr arwyddion i Ganolfan Geni Tirion a nodwyd gennym fod arwyddion clir ar waith i gyfeirio menywod a'u teuluoedd.

Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael ym mhob ystafell ar ffurf llyfryn wrth ochr y gwely a oedd yn cynnwys gwybodaeth glinigol ac ymarferol bwysig. Roedd yn nodi'n glir sut i adnabod rolau aelodau o staff drwy liw eu gwisg. Roedd y wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg, ar gais.

Gwnaethom gyfarfod ag aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg, ond nid oedd unrhyw ffordd o adnabod yr aelod hwn o staff. Nid oedd logo "iaith gwaith" ar ei wisg. Dywedwyd wrthym fod hyn oherwydd problemau â'i wisg ar ôl i'r aelod o staff ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb.

**Dylai'r bwrdd iechyd ystyried ehangu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn y Ganolfan Geni er mwyn sicrhau y caiff gofal Cymraeg ei gynnig mewn ffordd ragweithiol i fenywod a theuluoedd a bod modd adnabod staff sy'n siarad Cymraeg yn hawdd.**

Dywedwyd wrthym y byddai'r llinell iaith yn cael ei defnyddio i gael gwasanaethau cyfieithu pe byddai eu hangen ar fenywod a'u teuluoedd. Nodwyd gennym fod y wefan a'r holl wybodaeth i fenywod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Hawliau a Chydraddoldeb**

Dywedodd y tair menyw a atebodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw achos o wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn neu ei ddefnyddio ar sail unrhyw nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a darparwyd enghreifftiau lle roedd addasiadau rhesymol ar waith, neu'n cael eu gwneud, fel bod pawb, gan gynnwys unigolion â nodweddion gwarchodedig, yn gallu defnyddio'r gwasanaeth.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gadarnhaodd fod trefniadau ar waith ar gyfer hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth gorfodol i'r staff a bod lefelau cydymffurfiaeth yn uchel ar dros 85%.

Mae lifft ar gael i gyrraedd gwahanol lefelau'r ganolfan geni. Mae'r coridorau yn llydan ac yn glir ac nid oes unrhyw rwystrau.

Dywedwyd wrthym nad oes llawer o fenywod a theuluoedd o gefndiroedd ethnig amrywiol a lleiafrifol yn defnyddio'r ganolfan geni. Gwelsom hefyd nad oedd llawer o wybodaeth ar gael i fenywod nad oeddent yn siarad Saesneg. **Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i wella ymwybyddiaeth o'r Ganolfan Geni ymhlith cymunedau amrywiol er mwyn cynyddu amrywiaeth y menywod a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r ganolfan.**

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli risg**

Gwnaethom edrych ar dystiolaeth o archwiliadau amgylcheddol rheolaidd. Gwelsom fod unrhyw broblemau yn cael eu huwchgyfeirio'n briodol a bod cofnodion o'r diffygion y rhoddwyd gwybod amdanynt yn cael eu cadw a bod cynnydd yn cael ei olrhain. Roedd y prosesau hyn yn sicrhau bod risgiau yn yr amgylchedd yn cael eu rheoli'n effeithiol er mwyn cadw pobl yn ddiogel.

Roedd system ar gyfer adolygu'r holl drosglwyddiadau gofal o'r ganolfan geni i'r uned obstetreg er mwyn sicrhau bod arferion a throsglwyddiadau yn ddiogel, yn amserol ac o fudd i'r claf. Gwnaethom edrych ar y ddogfennaeth a oedd yn nodi manylion pob trosglwyddiad a monitro pob achos er mwyn nodi'r gwersi a ddysgwyd a / neu'r cyfleoedd a gollwyd. Gwelsom fod asesiadau risg dynamig rheolaidd ar waith i sicrhau bod menywod yn dal i gael gofal yn y lleoliadau mwyaf priodol a'u bod yn cael eu trosglwyddo'n briodol os bydd angen.

Gwnaethom drafod y broses o reoli digwyddiadau â'r arweinwyr. Gwnaethant ddisgrifio'r prosesau cynhwysfawr sydd ar waith. Roedd unrhyw ddigwyddiadau o bwys yn cael eu cofnodi ar unwaith, yn cael eu hadolygu gan uwch-reolwyr a rheolwyr uned ac roedd yr adolygiad ar ffurf adolygiad amlddisgyblaethol. Roedd hyn yn golygu bod modd dysgu gwersi mewn modd amserol a rhoi unrhyw newidiadau i ymarfer ar waith yn gyflym. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hyderus i roi gwybod am ddigwyddiadau a'u cofnodi a dywedwyd wrthym fod y gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau yn cael eu rhannu drwy gyfarfodydd staff, grŵp WhatsApp a chyfarfodydd trosglwyddo.

Edrychodd yr arolygwyr ar y ddogfennaeth asesu risg a'r prosesau cysylltiedig i fenywod sydd am ddefnyddio'r ganolfan geni nad ydynt yn bodloni'r meini prawf. Nodwyd gennym fod mesurau priodol ar waith iddynt allu gwneud dewisiadau priodol ac i leihau risgiau.

Cawsom wybod mai un fydwraig gofrestredig fyddai'n gweithio drwy'r shifft cyfan ac y byddai'r uned yn galw am gymorth pellach gan fydwragedd cymunedol pan fyddai menywod yn cyrraedd a oedd yn y cyfnod esgor. Roedd system briodol ar waith ar gyfer staff ar alwad ac roedd hyn yn cynnwys hyblygrwydd gan reolwyr i gefnogi gwaith clinigol pe byddai angen.

Gwnaethom edrych ar rai o'r polisïau a oedd yn ymwneud ag argyfyngau meddygol. Roeddent yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd y staff yn gallu disgrifio'r weithdrefn ar gyfer gwagio'r pwll a'r cyfarpar i'w ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant ar reoli sefyllfa lle bydd y fam yn llewygu yn y pwll yn cael ei ddarparu fel rhan o'r diwrnod astudio PROMPT Cymunedol.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Gwelsom fod pob rhan o'r ganolfan yn lân yr olwg, yn daclus ac nad oedd unrhyw annibendod. Dywedodd pob un o'r menywod a'r unigolion sy'n rhoi genedigaeth a gwblhaodd holiadur eu bod yn credu bod yr uned yn drefnus, yn lân ac yn daclus.

Gwnaethom edrych ar bolisïau priodol a chyfredol mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a oedd ar gael i'r staff ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd drwy system TG gwmwl.

Gwelsom fod amserlenni glanhau ar waith ar gyfer yr uned a'u bod yn gyfredol. Roedd eitemau o gyfarpar wedi'u labelu er mwyn dangos eu bod yn lân ac yn barod i'w defnyddio.

Gwnaethom edrych ar dystiolaeth ar gronfa ddata rheoli archwiliadau a oedd yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau, gan gadarnhau lefelau cydymffurfiaeth uchel ag archwiliadau atal a rheoli heintiau, archwiliadau hylendid dwylo ac archwiliadau gwisg diweddar ac a gynhaliwyd yn rheolaidd.

Nodwyd gennym fod ôl traul ar y paent ar rai o'r unedau yn rhai o'r ystafelloedd a bod y pren oddi tano i'w weld. Gallai hyn olygu ei bod hi'n anodd glanhau'n effeithiol. (Gweler y gwelliant yn yr adran Ansawdd Profiad y Claf)

Ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, gwelsom fod gwely pwytho yn cael ei storio yn yr olchfa. Cawsom wybod nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n aml, ond roedd yn peri risg o ran atal a rheoli heintiau gan nad yw'r olchfa yn cynnig amgylchedd clinigol lân. Symudwyd y gwely i ardal storio fwy priodol ar ddiwedd y diwrnod cyntaf. **Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad A yr adroddiad hwn.**

**Diogelu plant ac oedolion**

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisïau a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd staff y ganolfan geni yn gallu gweld gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd drwy'r fewnrwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y wardiau eu bod yn hyderus

bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu.

Roedd hyfforddiant diogelu yn orfodol i bob aelod o'r staff a gwelsom fod lefelau cydymffurfiaeth yn uchel iawn.

Gwnaethom ystyried amgylchedd yr uned a gwelsom fod mesurau diogelwch digonol ar waith i sicrhau bod babanod yn ddiogel yn yr uned. Roedd system seinydd i gael mynediad ac roedd drysau ymadael aerglos. Roedd matresi pwysedd hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer y babanod ac roedd camera teledu cylch-cyfyng ar y drysau ymadael. Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod ymarfer herwgydio babanod wedi cael ei gynnal yn ddiweddar. Cadarnhaodd arweinwyr y wardiau nad oedd ymarfer herwgydio babanod wedi cael ei gwblhau yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal ymarfer herwgydio babanod yng Nghanolfan Geni Tirion cyn gynted â phosibl. Dylid rhannu unrhyw wersi cysylltiedig yn deillio o'r ymarfer â'r staff**.

### Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Yn gyffredinol, dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod cyfarpar meddygol priodol ar gael iddynt i ddarparu gofal i fenywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth. Cadarnhawyd hyn gan y staff a ymatebodd i'r arolwg, lle roedd y tri aelod o staff yn cytuno bod ganddynt ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar digonol i wneud eu gwaith.

Cadarnhaodd y ddogfennaeth a welsom fod gwiriadau rheolaidd ar gyfarpar yn sicrhau ei fod yn addas i'w ddefnyddio.

Gwelsom fod y troli brys, i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, yn drefnus ac yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol. Gwelsom fod gwiriadau cynnal a chadw dyddiol yn cael eu cynnal ar yr eitemau hyn o gyfarpar. Roedd y cyffuriau brys hefyd yn cael eu storio ar y troli dadebru brys.

Gwelwyd cyfarpar gwagio mewn argyfwng yn ystafell y pwll geni, y gellid ei ddefnyddio pe bai cymhlethdodau yn codi yn ystod genedigaeth ddŵr. Rhoddwyd sicrwydd i ni hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

### Rheoli Meddyginiaethau

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd rhai materion mewn perthynas â storio meddyginiaethau a halwynau yn ddiogel. Nodwyd gennym fod y gofrestr a'r

gwiriadau ar gyfer Cyffuriau a Reolir yn cael eu cynnal yn briodol. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio â phrosesau'r bwrdd iechyd, roedd yn ofynnol cadw'r allweddi ar gyfer y cyffuriau a reolir ar wahân i'r brif set o allweddi er mwyn rheoli mynediad yn well. Argymhellwyd hyn i'r arweinwyr ac ymdriniwyd â'r mater ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, gyda chymorth tîm fferylliaeth yr ysbyty.

Gwelsom fod rhai hylifau yn cael eu storio mewn cwpwrdd heb ei gloi a bod lignocaine yn cael ei storio mewn droriau yn yr ystafelloedd geni. Nododd yr arolygwyr ei bod yn ofynnol i'r holl feddyginiaethau a'r holl hylifau gael eu storio'n briodol mewn cypyrddau wedi'u cloi. Ymdriniwyd â'r mater hwn ac fe'i datryswyd. Yn ystod yr arolygiad, cymerwyd camau i sicrhau bod yr holl feddyginiaethau, yr holl hylifau a'r holl gyfarpar wedi'u storio'n ddiogel.
**Ceir rhagor o wybodaeth am y mesurau rheoli a diogelu meddyginiaethau a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad yn Atodiad A yr adroddiad hwn.**

## Effeithiol

### Gofal Effeithiol

Yn ystod yr arolygiad, llwyddodd y rheolwyr i roi sicrwydd i ni fod archwiliadau mewnol wedi'u cynnal a rhoesant dystiolaeth o amrywiaeth o archwiliadau a gynhaliwyd a gwelliannau a wnaed i'r tîm. Gwnaethom edrych ar y blaengynllun archwilio a'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2022-23.

Gwelsom dystiolaeth o weithgarwch archwilio, gan gynnwys archwiliadau atal a rheoli heintiau ac archwiliadau amgylcheddol a oedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom sgoriau uchel ar y cyfan a nodwyd gennym fod camau cywiro wedi cael eu cymryd, eu holrhain a'u monitro o ganlyniad i'r archwiliadau a gwblhawyd.

### Maeth a hydradu

Ni welsom unrhyw enghreifftiau o fwyd yn cael ei weini yn ystod yr arolygiad. Roedd cyfleusterau ar gyfer gwneud te a choffi a chyflenwad o ddŵr ar gael ym mhob ystafell yn y ganolfan geni hon.  Roedd bwyd cynnes ar gael drwy gyfleusterau'r ysbyty ac roedd brecwast ar gael ar amseroedd a oedd yn addas i'r menywod. Dywedwyd wrthym fod amrywiaeth o frechdanau a byrbrydau ar gael i'r menywod pan fyddai eu hangen.

### Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar bum set o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, gwelsom fod y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion o safon dda, a bod cynlluniau yn cael eu dogfennu'n dda.

Roedd yr holl gofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac yn drefnus er bod rhai llofnodion ar goll mewn un set o gofnodion.

## Effeithlon

**Effeithlon**
Mae Canolfan Geni Tirion yn cynnig amgylchedd glân, trefnus a thaclus o safon dda. Roedd y staff yn cael cymorth gan gydweithwyr o bob ardal o'r bwrdd iechyd ac roeddent yn cydweithio i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i fenywod, pobl sy'n rhoi genedigaeth a theuluoedd.

Gwnaethom ystyried y systemau a'r prosesau sydd ar waith i sicrhau'r arbedion gorau posibl. Nodwyd gennym fod nifer o rolau arbenigol ar waith ar draws y bwrdd iechyd, gan gynnwys bydwragedd ymgynghorol, bydwraig iechyd y cyhoedd a bydwraig profiad y claf. Roedd yr aelodau hyn o staff yn cefnogi'r staff a'r menywod a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r ganolfan geni. Dywedwyd wrthym fod y bydwragedd arbenigol a'r rheolwyr bydwreigiaeth hefyd yn helpu i staffio'r ganolfan geni pan fo angen.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron ar-lein i gasglu barn ac adborth gan y staff. Rydym wedi edrych ar gyfanswm o dri holiadur a gwblhawyd. Nododd un sylw a gafwyd

*"Mae Tirion yn uned ddiogel hyfryd sy'n cael ei rhedeg gan fydwragedd profiadol a brwdfrydig, sy'n darparu gofal cyfannol i bobl feichiog a'u teuluoedd. Mae gennym dîm hapus sy'n helpu ei gilydd ac sy'n gweithio'n galed i lenwi shifftiau pan fydd angen os bydd cydweithwyr yn sâl. Mae'r teuluoedd rydym yn gofalu amdanynt yn cael profiad geni cadarnhaol. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn olrhain unrhyw drosglwyddiadau ac yn myfyrio ar yr achosion hyn ac unrhyw ddeilliannau dysgu. Fel tîm, rydym yn darparu ar gyfer y teuluoedd a'r gwasanaeth mamolaeth ehangach. Mae Tirion yn fwy na dim ond gweithle, mae'n ail gartref ac rydym ni fel tîm yn hynod falch o'r ganolfan ac yn awyddus i barhau i'w helpu i dyfu."*

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**
Gwnaethom gyfarfod â'r arweinwyr brwdfrydig sy'n gyfrifol am y Ganolfan Geni a rannodd weledigaeth y dylai menywod a theuluoedd gael y gofal gorau posibl o dan arweiniad bydwragedd mewn amgylchedd cartrefol. Dywedodd yr arweinwyr y gwnaethom siarad â nhw wrthym am newid cadarnhaol mewn diwylliant yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a chadarnhawyd hyn gan bob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw.

Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw y gellid dibynnu ar eu rheolwyr a'u bod yn hygyrch.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau a oedd yn ymwneud â'r cyfarfodydd a gynhaliwyd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Roedd y cyfarfodydd hynny yn cynnwys cyfarfodydd diogelwch a llywodraethu mamolaeth, cyfarfodydd adolygu digwyddiadau a chyfarfodydd amlddisgyblaethol rheolaidd. Roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd, roedd cofnodion yn cael eu cymryd ac roedd camau gweithredu yn cael eu nodi'n glir.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar rai canllawiau a pholisïau, a nodwyd gennym fod y dyddiad ar gyfer adolygu rhai o'r polisïau a oedd yn berthnasol i'r bwrdd iechyd cyfan wedi mynd heibio. Roedd hyn yn cynnwys y polisi Gweithio i Wella. Y dyddiad ar y polisi hwnnw oedd 2011. **Dylai'r bwrdd iechyd archwilio, diweddaru a rhannu canllawiau a pholisïau sy'n ymwneud â gofal mamolaeth.**

## Y Gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Gwelsom fod trefniadau cyfathrebu effeithiol ar waith ymhlith y nifer bach o aelodau o staff parhaol yng Nghanolfan Geni Tirion. Mae saith aelod o staff craidd yn gweithio yn y ganolfan.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau staffio llawn ar waith yn y ganolfan geni. Gwelsom rotas a oedd yn dangos bod y lefelau staffio dros y misoedd diwethaf yn cydymffurfio'n llawn â Birth Rate Plus. Gwnaethom edrych ar y rota ar alwad lle caiff bydwragedd cymunedol eu galw pan fydd angen cymorth geni yng Nghanolfan Geni Tirion. Dywedwyd wrthym fod y fydwraig ymgynghorol a bydwragedd arbenigol eraill yn gweithio ar draws y bwrdd iechyd cyfan, a'u bod hefyd yn gweithio ar sail glinigol i gefnogi'r Ganolfan Geni.

Gwnaethom edrych ar yr ymatebion o'r holiadur staff ac roedd pawb yn cytuno eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl.

Gwnaethom edrych ar gofnodion cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol y tîm, gan gadarnhau lefel cydymffurfiaeth uchel dros 95%. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant PROMPT Cymunedol â lefelau hyfforddiant uchel a oedd yn cydymffurfio â'r gofynion er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar y sgiliau brys i'w defnyddio mewn argyfwng obstetrig.

Gwnaethom gyfarfod â bydwraig a oedd newydd gymhwyso a gwelsom ei bod wedi cael cyfnod sefydlu a hyfforddiant priodol, gyda chymorth o bob rhan o'r bwrdd iechyd drwy gydol rhaglen tiwtoriaeth gynhwysfawr. Gwelsom frwdfrydedd ymhlith y tîm i roi cyfnod sefydlu a hyfforddiant cadarn i fydwragedd newydd er mwyn sicrhau bod staff newydd yn teimlo eu bod wedi'u cefnogi'n llawn.

Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd a chymorth i ddatblygu. Gwelsom dystiolaeth o lefelau cydymffurfiaeth uchel ag arfarniadau blynyddol.

Dywedwyd wrthym am ystod gynhwysfawr o ffyrdd y gall aelodau o'r staff adrodd yn ôl ar unrhyw bryderon, gwelliannau neu awgrymiadau. Roedd tîm Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd gweithredol. Gwnaethom edrych ar y polisi chwythu'r chwiban. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon neu faterion â'r rheolwyr.

Gwelsom fod amrywiaeth o rolau a swyddogaethau bydwragedd arbenigol ar waith ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. Dywedodd aelodau o'r staff wrthym fod y rolau hyn yn weladwy ac yn gefnogol a'u bod yn darparu canlyniadau effeithiol a chadarnhaol i fenywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth. Roedd llawer o'r bydwragedd arbenigol hyn yn treulio amser yn gweithio yn y ganolfan geni.

Dywedwyd wrthym fod yr uned wedi newid o uned famolaeth a arweinir gan obstetreg i uned geni a arweinir gan fydwragedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym am anawsterau wrth oresgyn heriau gan rai cydweithwyr meddygol, o ran cynnig dewis i fenywod sy'n bodloni'r meini prawf roi genedigaeth yng nghanolfan Tirion (yn hytrach nag mewn lleoliad a arweinir gan obstetreg).

**Dylai'r bwrdd iechyd godi ymwybyddiaeth o gyfleusterau, canlyniadau a lefelau boddhad menywod sydd wedi defnyddio Canolfan Geni Tirion ymhlith cydweithwyr ehangach ar draws y bwrdd iechyd.**

## Diwylliant

**Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**
Gwelsom fod y llyfryn wrth ochr gwely'r cleifion yn nodi'n glir sut y gall menywod a theuluoedd roi adborth / codi pryderon. Gwelsom hefyd fod gwybodaeth Gweithio i Wella ar gael i fenywod a theuluoedd.

Gwnaethom edrych ar yr amrywiaeth eang o ffyrdd y mae'r bwrdd iechyd yn annog menywod i roi adborth ar eu profiadau. Nodwyd gennym fod sawl cyfle i fenywod roi adborth ar eu profiadau ar wahanol adegau yn ystod eu taith famolaeth. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei holrhain a'i monitro. Roedd y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i ategu'r gwaith hwn ac roedd menywod yn cael eu hannog i ymuno â grŵp lleisiau mamolaeth y bwrdd iechyd. Mae'r systemau ar gyfer olrhain adborth a'r defnydd a wneir o'r adborth hwnnw i ddylanwadu ar newidiadau a gwelliannau yn y gwasanaethau mamolaeth ehangach ar draws y bwrdd iechyd yn gynhwysfawr. **Roedd yr arolygwyr o'r farn bod y trefniadau hyn i ymgysylltu â chleifion a chofnodi adborth drwy gydol y daith famolaeth yn arfer canmoladwy.**

Gwelsom y wybodaeth gynhwysfawr a oedd yn cael ei rhoi i bob menyw pan fyddai'n mynd adref ar ôl rhoi genedigaeth. Roedd y wybodaeth hon yn cynnwys manylion sut i ofyn am sesiwn dadfriffio. **Ystyriwyd bod y cyfle hwn i fenywod gael sesiwn dadfriffio ar ôl rhoi genedigaeth hefyd yn arfer canmoladwy.**

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos sut mae adborth gan gleifion wedi cael ei gynnwys fel rhan o hyfforddiant a gweithgareddau gwella ymwybyddiaeth i staff, er enghraifft drwy'r “sesiwn briffio 7 munud”.

Roedd byrddau adborth i'w gweld a oedd yn cynnwys cardiau a sylwadau gan fenywod sydd wedi defnyddio'r ganolfan geni. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod unrhyw bryderon neu gwynion gan fenywod a theuluoedd yn cael eu hannog a chadarnhawyd na chafwyd unrhyw gwynion ffurfiol nac anffurfiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## Gwybodaeth

**Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol**
Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 yn y ganolfan geni. Roedd yr holl nodiadau a'r wybodaeth yr oedd modd adnabod cleifion ohoni yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn ardaloedd ar wahân i'r ardaloedd cyhoeddus.

Roedd y system TG ddiogel ar gael i bob aelod o'r staff. Dywedwyd wrthym fod yr holl ganllawiau ar gael i'w gweld ar gronfa ddata i'r bwrdd iechyd cyfan y gall pob aelod o'r staff ei defnyddio.

Dywedwyd wrthym fod y system TG ar gyfer cofnodion cleifion mamolaeth yn y Ganolfan Geni (Ysbyty Brenhinol Morgannwg) yn wahanol i'r system yn yr uned Obstetreg (Ysbyty Tywysoges Cymru) yr oedd cleifion o'r Ganolfan Geni yn cael eu hatgyfeirio iddi. Roedd y bwrdd iechyd wedi nodi'r mater hwn ar ei gofrestr risg gan fod risg y byddai achosion o gamgyfathrebu mewn perthynas â menywod a fyddai'n cael eu trosglwyddo o'r ganolfan geni i ofal yr uned obstetreg. Cawsom wybod fod cynlluniau ar waith i ganolfan geni ac uned obstetreg y bwrdd iechyd newid i un system symlach yn ystod haf 2024.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

**Gweithgareddau gwella ansawdd**
Dywedwyd wrthym fod dwy fydwraig ymchwil yn gweithio yn y bwrdd iechyd a rhannwyd enghreifftiau o'r gweithgarwch ymchwil a oedd yn mynd rhagddo. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ymchwil mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu yn ogystal ag astudiaeth bwydo.

Gwnaethom edrych ar wybodaeth gan y Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd a oedd yn anelu at wella ansawdd.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | |
| **Atal a Rheoli Heintiau**<br>**Ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, roedd gwely pwytho yn cael ei storio yn yr olchfa. Cawsom wybod nad oedd y gwely hwn yn cael ei ddefnyddio'n aml, ond roedd yn peri risg o ran atal a rheoli heintiau gan nad yw'r olchfa yn cynnig amgylchedd clinigol lân.** | Nid yw'n briodol storio cyfarpar i gleifion mewn golchfa oherwydd y risg atal a rheoli heintiau sy'n gysylltiedig ag amgylchedd nad yw'n glinigol lân. | Trafododd yr arolygydd y pryderon hyn ag arweinydd y ward ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad. | Symudwyd y gwely pwytho i ardal storio briodol ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad. |
| **Rheoli meddyginiaethau (allweddi ar gyfer y cyffuriau a reolir)** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Nid oedd yr allweddi ar gyfer y cyffuriau a reolir yn cael eu cadw ar wahân i'r allweddi eraill a oedd yn cael eu cadw gan y fydwraig gofrestredig a oedd ar y shifft. Argymhellwyd hyn i'r arweinwyr ac ymdriniwyd â'r mater ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, gyda chymorth tîm fferylliaeth yr ysbyty.** | Roedd proses yr ysbyty yn nodi y dylid cadw allwedd cwpwrdd y cyffuriau a reolir ar wahân i'r prif allweddi er mwyn sicrhau mynediad mwy diogel i gwpwrdd y cyffuriau a reolir a lleihau'r risg y byddai unigolion heb awdurdod yn gallu cael gafael arnynt. | Ymgynghorodd yr arolygydd ag arweinwyr y wardiau a'r tîm fferylliaeth ar y safle er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â phrosesau'r bwrdd iechyd. | Tynnwyd yr allwedd i gwpwrdd y cyffuriau a reolir oddi ar y set o brif allweddi a oedd yn cael ei chadw gan y fydwraig gofrestredig a oedd ar y shifft. |
| **Rheoli meddyginiaethau (storio)**<br><br>**Gwelsom fod rhai hylifau yn cael eu storio mewn cwpwrdd heb ei gloi a bod lignocaine yn cael ei storio mewn droriau heb eu cloi yn yr ystafelloedd geni. Nododd yr arolygwyr ei bod yn ofynnol i'r holl feddyginiaethau a'r holl hylifau gael eu storio'n briodol mewn cypyrddau wedi'u cloi.** | Mae storio hylifau a meddyginiaethau mewn cypyrddau / droriau heb eu cloi yn peri risg y gallai staff, cleifion neu ymwelwyr heb awdurdod gael gafael arnynt. | Rhoddodd yr arolygydd wybod i arweinydd y ward fod meddyginiaethau a hylifau yn cael eu storio yn y fath fodd. | Yn ystod yr arolygiad, cymerwyd camau i sicrhau bod yr holl feddyginiaethau, yr holl hylifau a'r holl gyfarpar wedi'u storio'n ddiogel. |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Canolfan Geni Tirion, Ysbyty Brenhinol Morgannwg

## Dyddiad yr arolygiad: 19 – 20 Hydref 2023

Mae’r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen cynllun ar gyfer eu gwneud ar unwaith** | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Canolfan Geni Tirion, Ysbyty Brenhinol Morgannwg**

**Dyddiad yr arolygiad: 19 – 20 Hydref 2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Profiad y Claf** | | | | |
| **Cynnal a Chadw / Atal a Rheoli Heintiau**<br><br>**Roedd y slatiau ar rai o'r bleinds wedi torri neu ar goll**<br><br>**Roedd ôl traul ar y paent ar yr unedau yn rhai o'r ystafelloedd ac roedd y pren oddi tano i'w weld.** | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhaglen dreigl o waith cynnal a chadw ar waith er mwyn sicrhau bod y ganolfan yn addas at y diben ac y gellir ei glanhau'n effeithiol. | Mae gwaith ailbaentio yn mynd yn ei flaen.<br><br>Trefnwyd cyllid ac archebwyd bleinds newydd.<br><br>Caiff archwiliad amgylcheddol AMAT ei gynnal bob mis.<br><br>Caiff gwaith paentio yng nghanolfan Tirion ei ychwanegu at raglen cynnal a chadw dreigl safle Ysbyty Brenhinol Morgannwg. | Uwch-fydwraig Arweiniol Tirion a'r Gwasanaethau Cymunedol | Wedi'i gwblhau<br><br>Chwefror 2024<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Caiff yr amgylchedd ei gynnwys fel rhan o raglen dreigl Ymweld Pwrpasol bob blwyddyn. | | Wedi'i gwblhau |
| **Teg**<br><br>**Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg**<br><br>**Gwelsom nad oedd gan aelod o staff sy'n siarad Cymraeg logo Iaith Gwaith**<br><br>**Nodwyd genym nad oes llawer o fenywod o gefndiroedd ethnig amrywiol neu leiafrifol yn defnyddio'r Ganolfan Geni** | Dylai'r bwrdd iechyd ystyried ehangu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn y Ganolfan Geni er mwyn sicrhau y caiff gofal Cymraeg ei gynnig mewn ffordd ragweithiol i fenywod a theuluoedd a bod modd adnabod staff sy'n siarad Cymraeg yn hawdd<br><br>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i wella ymwybyddiaeth o'r Ganolfan Geni ymhlith cymunedau amrywiol er mwyn cynyddu amrywiaeth y menywod a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r ganolfan | Caiff poster ei arddangos sy'n dangos y logo Iaith Gwaith yn ardaloedd y ganolfan geni er mwyn i ddefnyddwyr y gwasanaeth allu adnabod siaradwyr Cymraeg.<br><br>Nodi pob aelod o staff Tirion sy'n siarad Cymraeg er mwyn sicrhau bod gan y staff hynny wisg briodol â logo Iaith Gwaith.<br><br>Mae system trefnu apwyniadau digidol y gwasanaethau mamolaeth yn cynnwys ac yn casglu data sy'n ymwneud ag anghenion iaith/cyfathrebu ac ethnigrwydd er mwyn i'r gwasanaeth allu deall yr | Bydwraig arweiniol weithredol Tirion<br><br>Bydwraig arweiniol weithredol Tirion | Rhagfyr 2023<br><br>Rhagfyr 2023 - Chwefror 2024<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | amrywiaeth o fewn cymunedau lleol.<br><br>Dechrau defnyddio iPad er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau cyfieithu a dehongli i unigolion nad ydynt yn siarad Saesneg.<br><br>Rhaglen o waith ymgysylltu cymunedol drwy ddigwyddiadau Cawod Babi y gall pob un a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol eu mynychu, wedi'i chefnogi gan dîm canolfan geni Tirion.<br><br>Ystyriaeth benodol i gynnal digwyddiad mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru i ymgysylltu â myfyrwyr o dramor. | Bwrdd Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar, Bydwraig Profiad Menywod | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Mawrth 2024 |
| **Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | |
| **Diogelwch babanod**<br><br>**Nodwyd gennym nad oedd ymarfer herwgydio babanod** | Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal ymarfer herwgydio babanod yng Nghanolfan Geni Tirion cyn gynted â phosibl. Dylid rhannu unrhyw | Mae'r canllaw 'Security of the Newborn' wrthi'n cael ei ddiweddaru, i gynnwys safonau y gellir eu harchwilio ar gyfer | Fforwm Ôl-enedigol | Chwefror 2024 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **wedi cael ei gynnal yn ystod y 12 mis diwethaf.** | wersi cysylltiedig yn deillio o'r ymarfer â'r staff | cynnal ymarfer herwgydio babanod blynyddol.<br><br>Mae ymarfer Herwgydio Babanod wedi'i gynllunio: Ymarfer bwrdd gwaith ar herwgydio babanod ac ymarfer herwgydio babanod lleol<br><br>Ymarfer herwgydio babanod llawn | Uwch-fydwraig Arweiniol Tirion a'r Gwasanaethau Cymunedol, bydwraig arweiniol weithredol Tirion a'r timau Diogelwch/Ystadau | Rhagfyr 2023<br><br>Ionawr 2024 |
| **Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | | | | |
| **Ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth**<br><br>**Cawsom sylwadau gan aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw a oedd yn cyfeirio at amharodrwydd rhai o'u cydweithwyr ar draws y bwrdd iechyd i gynnig y Ganolfan Geni fel dewis i fenywod sy'n bodloni'r meini prawf.** | Dylai'r bwrdd iechyd godi ymwybyddiaeth o gyfleusterau, canlyniadau a lefelau boddhad menywod sydd wedi defnyddio Canolfan Geni Tirion ymhlith cydweithwyr ehangach ar draws y bwrdd iechyd. | Cafodd adroddiad blynyddol ar ganlyniadau canolfan geni Tirion a phrofiadau o'r ganolfan ei rannu yn ystod cyfarfod archwilio/llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth cyfan.<br><br>Lle caiff agweddau negyddol tuag at y model gofal eu nodi, rhoddir trefniadau ar waith i'r staff ddysgu o wersi yn deillio o straeon ac adborth/myfyrdodau gan gleifion. | | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Caiff straeon teuluoedd eu rhannu yn ystod cyfarfodydd/fforymau adrannol.<br><br>Datblygwyd fideo 'marchnata' Tirion sy'n rhannu profiadau teuluoedd o ddefnyddio Tirion. | | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |
| | | | | |
| **Polisïau a chanllawiau**<br><br>**Nid oedd rhai o'r polisïau a'r canllawiau a oedd yn berthnasol i ofal mamolaeth yn gyfredol neu roedd angen eu hadolygu** | Dylai'r bwrdd iechyd archwilio, diweddaru a rhannu canllawiau a pholisïau sy'n ymwneud â gofal mamolaeth | Cafodd y polisïau/canllawiau presennol a ddaeth i ben yn 2023 eu hymestyn am gyfnod pellach o 12 mis drwy broses llywodraethu'r Bwrdd gwella gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.<br><br>Mae'r Grŵp Gwasanaeth Canllawiau yn llunio cynllun gwaith blynyddol er mwyn sicrhau y caiff canllawiau eu hadolygu mewn modd amserol.<br><br>Caiff y staff y wybodaeth ddiweddaraf drwy e-bost a thrwy ddeunydd cyfathrebu â'r staff ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol bod | Pennaeth Bydwreigiaeth<br><br>Cadeirydd y Grŵp Canllawiau<br><br>Bydwraig Arweiniol yn ystod Genedigaeth | Wedi'i gwblhau<br><br>Ionawr 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | y canllawiau hyn wedi'u hymestyn.<br><br>Mae grŵp canllawiau mamolaeth/gynaecoleg/ISH sy'n monitro canllawiau y bydd angen eu diweddaru'n fuan | Grŵp Canllawiau Mamolaeth | Wedi'i gwblhau |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Sarah Fox a Bryany Tweedale**

**Swydd: Pennaeth Bydwreigiaeth/Gynaecoleg/ISH, Bydwraig Ymgynghorol**

**Dyddiad: 13 Rhagfyr 2023**